

# Adroddiad crynodeb i rieni a gofalwyr ar Ysgol Ysbyty Ifan

## Dyddiad yr arolygiad: Tachwedd 2024

gan Estyn, Estyn, Arolygiaeth Ei Fawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru

# Crynodeb

Mae ethos cyfeillgar a chynnes yn nodwedd gref yn ysgol Ysbyty Ifan, lle mae disgyblion, staff a rhieni yn ymfalchïo yn awyrgylch cartrefol yr ysgol. Mae parch disgyblion at ei gilydd ac at ymwelwyr yn amlwg. Maent yn chwarae'n hapus gyda'i gilydd, ac mae'r staff yn eu hannog i fod yn gwrtais a chyfeillgar. O ganlyniad, mae ymddygiad bron bob disgybl yn dda iawn.

Mae arweinwyr yn adnabod rhai o gryfderau'r ysgol ac yn ymwybodol o'r blaenoriaethau gwella. Fodd bynnag, nid ydynt yn ddigon llwyddiannus wrth fynd i'r afael â gwendidau sylfaenol yn ansawdd y ddarpariaeth a deilliannau disgyblion. Er enghraifft, nid yw ansawdd yr addysgu yn ddigon cadarn yn yr ysgol, ac nid yw arweinwyr yn mynd i'r afael â'r gwendidau hyn yn ddigon effeithiol.

Yn gyffredinol, mae staff yn adnabod disgyblion a'u teuluoedd yn dda, gan sicrhau bod bron bob disgybl yn teimlo eu bod yn perthyn i'r ysgol. Fodd bynnag, nid yw athrawon yn cynllunio'n ddigon strategol i adeiladu ar wybodaeth a dealltwriaeth disgyblion yn ddigonol nac yn darparu gweithgareddau dysgu sy'n ddigon heriol iddynt ar draws pob maes dysgu. O ganlyniad, mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion yn gwneud cynnydd cyfyngedig yn eu medrau o'u mannau cychwyn, yn enwedig eu medrau sylfaenol.

Mae'r corff llywodraethol yn cefnogi'r ysgol ac yn adnabod ei chymuned yn dda. Maent yn dechrau adnabod cryfderau a meysydd i'w gwella, ond mae bylchau amlwg yn eu gwybodaeth ynglŷn ag ansawdd yr addysgu a'r dysgu. Nid ydynt yn herio arweinwyr yn ddigon effeithiol a'u dwyn i gyfrif fel ffrind beirniadol. Yn ogystal, nid yw'r polisi diogelu na threfniadau hyfforddiant yn ddigon cadarn.

Mae'r pennaeth wedi creu gweledigaeth glir i hyrwyddo cymuned ofalgar sy'n blaenoriaethu parch, Cymreictod a balchder lleol. Mae gan yr ysgol berthynas gadarn â rhieni, gan eu cynnwys mewn digwyddiadau a rhannu gwybodaeth yn effeithiol. Mae cysylltiadau cryf â'r gymuned leol yn hybu balchder disgyblion yn eu treftadaeth.

# Argymhellion a beth sy’n digwydd nesaf

**Rydym wedi gwneud pedwar argymhelliad i helpu'r ysgol i barhau i wella**

**A1 Mynd i’r afael â’r mater diogelu a godwyd yn ystod yr arolygiad**

**A2 Sicrhau bod athrawon yn cynllunio’n fwriadus ar gyfer datblygu medrau’r disgyblion yn llawn**

**A3 Gwella’r addysgu, gan roi sylw penodol i godi disgwyliadau athrawon o’r hyn y gall disgyblion ei gyflawni a chynyddu lefel yr her i ddisgyblion o bob gallu**

**A4 Cryfhau arweinyddiaeth strategol yr ysgol a gwella gweithdrefnau hunanwerthuso a chynllunio ar gyfer gwelliant er mwyn codi safonau a chryfhau’r ddarpariaeth**

**Yn unol â Deddf Addysg 2005, mae PAEF o’r farn bod angen mesurau arbennig mewn perthynas â’r ysgol hon. Bydd yr ysgol yn llunio cynllun gweithredu i ddangos sut bydd yn mynd i’r afael â’r argymhellion. Dyma’r lefel ddwysaf o weithgarwch dilynol statudol. Bydd Estyn yn monitro cynnydd yr ysgol bob tymor ar ôl cyhoeddi’r adroddiad arolygu.**

**Os hoffech ddarllen mwy am werthusiad Estyn o’r ysgol, dilynwch y ddolen hon i’r adroddiad llawn.**




Ⓗ Hawlfraint y Goron 2025: Gellir ailddefnyddio’r adroddiad hwn yn ddi-dâl mewn unrhyw fformat neu gyfrwng ar yr amod y caiff ei ailddefnyddio’n gywir ac na chaiff ei ddefnyddio mewn cyd-destun camarweiniol. Rhaid cydnabod y deunydd fel hawlfraint y Goron a rhaid nodi teitl yr adroddiad penodol.

Dyddiad cyhoeddi: 30/01/2025

Sylwer, efallai na fydd y ffotograffau sy’n cael eu dangos yn rhai o’r ysgol sy’n destun yr adroddiad hwn.